

## Ymgeiswyr

**Gelwir y Cod hwn yn [ ] a bydd yn weithredol o [ ]**

### CYFLWYNIAD

Mae'r Comisiwn Etholiadol wedi'i alluogi o dan Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 i baratoi'r Cod statudol hwn ar dreuliau etholiad ymgeiswyr [sydd wedi cael ei gymeradwyo gan y Gweinidog ar gyfer Swyddfa'r Cabinet a Senedd y DU]. Mae'n dilyn ymgynghoriad â phersonau a chyrrff â diddordeb, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban, gyda Gweinidogion Swyddfa Gogledd Iwerddon [ ] yn cael eu hysbysu, a chymeradwyaeth i'w gyflwyno i'r Senedd gan y Gweinidog dros [ ] yn Llywodraeth y DU.

### Y pŵer i wneud y Cod

Mae gan y Comisiwn Etholiadol y pŵer o dan Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 Atodlen 4A, Rhan 3, paragraff 14, i baratoi Cod Ymarfer sy'n rhoi canllawiau ynglŷn â'r hyn sy'n dod o dan Ran 1 neu Ran 2 o Atodlen 4A a'r hyn nad yw'n dod o dan Ran 1 neu Ran 2 o Atodlen 4A.

Gall y Cod hefyd ategu adran 90ZA(3) i amlinellu'r achosion neu'r amgylchiadau lle ystyrir neu lle nad ystyrir yr aed i dreuliau at ddibenion ethol ymgeisydd.

Mae gan y Comisiwn bŵer cyffredinol hefyd o dan PPERA, Atodlen 1, paragraff 2 i wneud unrhyw beth y cyfrifir ei fod yn hwyluso'r broses o gyflawni unrhyw un o swyddogaethau'r Comisiwn neu sy'n gysylltiedig â chyflawni unrhyw un o swyddogaethau'r Comisiwn neu sy'n ffafriol i gyflawni unrhyw un o swyddogaethau'r Comisiwn.

### Pa etholiadau a gwmpesir gan y Cod?

Mae'r Cod yn cael ei baratoi'n bennaf mewn perthynas ag Etholiadau Seneddol y Deyrnas Unedig er mwyn egluro Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 yn y meysydd canlynol:

- Categoriâu o dreuliau etholiad ac eithriadau;
- Achosion neu'r amgylchiadau lle ystyrir neu lle nad ystyrir yr aed i dreuliau at ddibenion ethol ymgeisydd.

Ceir rhestr o'r holl etholiadau y mae'r Cod hwn yn gymwys iddynt ar ddiwedd y ddogfen hon.

### Sut mae'r Cod wedi'i drefnu?

Mae'r Cod wedi'i drefnu i gynnwys Adran ar bob mater a restrir yn Rhan 1 o Atodlen 4A i Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl. Mae'n amlinellu pa dreuliau sydd wedi'u cynnwys o dan bob mater mewn ffurflen treuliau etholiad lle yr eir i'r draul honno at ddibenion

ethol ymgeisydd, h.y. gyda'r nod o hyrwyddo neu sicrhau ethol yr ymgeisydd, neu fel arall mewn cysylltiad â hyrwyddo neu sicrhau ethol yr ymgeisydd.

Yna, bydd Adran yn rhoi canllawiau ar yr achosion a'r amgylchiadau lle ystyrir yr aed i dreuliau at ddibenion ethol ymgeisydd.

Wedyn bydd Adran yn amlinellu'r egwyddorion cyffredinol sy'n gymwys er mwyn esbonio ymhellach pa dreuliau etholiad y dylid eu cynnwys ar ffurflen yr ymgeisydd ac sy'n cyfrif tuag at derfyn gwariant ar ymgyrch yr ymgeisydd.

Nodir y diffiniadau a ddefnyddir yn y Cod ar dudalen 6.

## Y Cod i bleidiau gwleidyddol

Mae'r Comisiwn Etholiadol hefyd wedi paratoi Cod statudol o dan Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 ar wariant ar ymgyrch gan bleidiau gwleidyddol cofrestredig. Mae'r Codau yn gweithio gyda'i gilydd i ffurfio fframwaith er mwyn cael mwy o sicrwydd a thryloywder o ran cyllid etholiadau.

## Beth yw goblygiadau torri'r Cod?

Canllawiau statudol yw'r Cod hwn. Lle nad yw ymgeisydd neu asiant yn dilyn y Cod hwn, efallai y bydd yn mynd yn groes i'r gofyniad statudol i gyflwyno ffurflen treuliau etholiad gywir a gallai hyn arwain at erlyniad am arfer anghyfreithlon. Gall achosion o dorri'r Cod hwn hefyd arwain at gasgliad bod ymgeisydd neu asiant wedi gwneud datganiad anwir a hynny'n fwriadol am eu ffurflen sy'n gyfystyr ag arfer llwgr.

Lle ceir ymgeisydd neu asiant yn euog yn bersonol o arfer anghyfreithlon neu arfer llwgr, caiff ei wahardd rhag dal swydd etholedig am gyfnod o dair neu bum mlynedd fel y bo'n briodol ac yn achos yr ymgeisydd bydd ei (h)etholiad yn ddi-rym.

## Y fframwaith cyfreithiol ar gyfer gwariant ymgeiswyr

Mae gwariant ymgeiswyr ar dreuliau etholiad yn etholiadau Seneddol y DU yn cael ei lywodraethu gan Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983.

Mae S90ZA o'r Ddeddf yn diffinio traul etholiad fel:

*'(1) In [ [Part 2] of this Act "election expenses" in relation to a candidate at an election means (subject to subsection (2) below and section 90C below) any expenses incurred at any time in respect of any matter specified in Part 1 of Schedule 4A which is used for the purposes of the candidate's election [after the date when he becomes a candidate at the election].*

*(2) No election expenses are to be regarded as incurred by virtue of subsection (1) above or section 90C below in respect of any matter specified in Part 2 of Schedule 4A.'*

*(3) In this section and in section 90C below, “for the purposes of the candidate’s election” means with a view to, or otherwise in connection with, promoting or procuring the candidate’s election at the election.’*

*(4) For the purposes of [Part 2] of this Act, election expenses are incurred by or on behalf of a candidate at an election if they are incurred \_*  
*(a) by the candidate or his election agent, or*  
*(b) by any person authorised by the candidate or the election agent to incur expenses.*

*[(5) A reference in this Part of this Act to a candidate at an election, in relation to election expenses, includes (where the context allows) a reference to a person who becomes a candidate at the election after the expenses are incurred.*

*(6) In this Part and in Part 3 of this Act, any reference (in whatever terms) to promoting or procuring a candidate’s election at an election includes doing so by prejudicing the electoral prospects of another candidate at the election...’*

*(7) Schedule 4A has effect.’*

*(8) [ddim yn berthnasol yma].*

### **Terfynau gwariant a chyfnodau ymgyrch**

Mae’r swm y gellir ei wario ar dreuliau etholiad ymgeisydd wedi’i gyfyngu gan reolau Deddf Cynrychiolaeth y Bobl. Mae terfyn gwariant yn gymwys mewn perthynas â chyfnod penodol, y cyfeirir ato’n aml fel ‘cyfnod a reoleiddir’.

#### *Cyfnod a reoleiddir – pob etholiad o dan Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl*

Ar gyfer pob etholiad y mae’r Cod hwn yn gymwys iddo, daw’r cyfnod a reoleiddir sydd bob amser yn gymwys o adran 90ZA(1). Mae’n dechrau ar y diwrnod ar ôl y daw person yn ymgeisydd yn swyddogol ac mae’n dod i ben ar y diwrnod pleidleisio (diwedd y cyfnod pleidleisio ) – tua chwe wythnos. Pan fydd etholiad cyffredinol seneddol yn y DU, cyfeirir at hyn weithiau fel ‘y cyfnod byr’ neu gyfnod ‘yr ymgyrch fer’. Mae’r terfyn gwariant ar gyfer y cyfnod hwn wedi’i bennu gan adran 76 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl yn seiliedig ar y math o etholiad a’r etholaeth a ymleddir.

#### *Cyfnod ychwanegol ar gyfer rhai Etholiadau Cyffredinol Seneddol y DU*

At hynny, i ymgeiswyr yn y rhan fwyaf o etholiadau cyffredinol seneddol y DU, mae cyfnod hwy, ychwanegol yn gymwys. (Mae hyn oherwydd y cynhelir y rhan fwyaf o etholiadau o’r fath yn dilyn tymor Seneddol sydd wedi bodoli am fwy na 55 mis pan ddaw adran 76ZA yn weithredol.) Mae’r cyfnod hwn o dan adran 76ZA yn dechrau ar y diwrnod ar ôl diwedd y cyfnod o 55 mis ac mae’n dod i ben ar y diwrnod y daw’r person yn ymgeisydd yn swyddogol yn yr etholiad arfaethedig – tua phedwar mis. Cyfeirir at y cyfnod hwn yn aml fel ‘y cyfnod hir’ neu ‘cyfnod yr ymgyrch hir’. Mae’r terfyn gwariant a bennir gan adran 76ZA ar gyfer y cyfnod hwn yn seiliedig ar faint o amser y mae’r tymor Seneddol diweddar wedi bodoli a’r math o etholaeth.

### **Asiantiaid**

Mae’n rhaid i ymgeiswyr benodi asiant neu weithredu fel yr asiant hwnnw ei hun, i oruchwylio eu gwariant. Yr asiant sy’n gyfrifol am fynd i dreuliau etholiad ymgeisydd

a thalu amdanynt. Yr asiant sy'n gyfrifol am fynd i dreuliau etholiad o dan adran 75 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl. Yr asiant sy'n gyfrifol am dalu treuliau etholiad o dan adran 73 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl.

### **Gwariant tybiannol**

Mae 'gwariant tybiannol' ar dreuliau etholiad yn cyfrif tuag at derfynau gwariant yr ymgeisydd. O dan adran 90C o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl, mae gwariant tybiannol yn codi pan fydd eiddo, nwyddau, gwasanaethau neu gyfleusterau -

- yn dreuliau etholiad sydd o fewn y categorïau a restrir yn Rhan 1 ac nad ydynt wedi'u heithrio gan Ran 2 o Atodlen 4a.
- yn cael eu trosglwyddo neu eu darparu yn ddi-dâl neu am bris gostyngol o fwy na 10 y cant at ddefnydd neu fudd yr ymgeisydd, ac
- sy'n cael eu defnyddio gan neu ar ran yr ymgeisydd.

Pan fydd pob un o'r tri hyn wedi'i fodloni, bydd "swm priodol" os yw'n fwy na £50, yn cael ei drin fel traul etholiad yr aed iddi gan yr ymgeisydd. Y swm priodol yw'r swm sy'n rhesymol er mwyn adlewyrchu'r defnydd a wna'r ymgeisydd o'r eitem, fel cyfran o naill ai:

- gwerth yr eitem ar y farchnad (lle mae wedi cael ei darparu neu'n cael ei darparu'n ddi-dâl), neu
- werth y pris gostyngol (lle yr eir i beth o gost yr eitem gan/ar ran yr ymgeisydd).

Mae angen i'r gwariant tybiannol hwn gael ei ddatgan fel treuliau etholiad ar ffurflen yr ymgeisydd hyd yn oed os nad yw'r eitemau a ddarparwyd wedi cael eu hawdurdodi gan yr ymgeisydd, asiant yr ymgeisydd na rhywun arall a awdurdodwyd gan y naill neu'r llall neu'r ddau ohonynt, *R v Mackinlay ac eraill (Ymatebwyr)*, UKSC 42, 25 Gorffennaf 2018. Mae gwariant tybiannol sydd dros £50 hefyd yn rhodd.

### **Adrodd**

Mae Adran 81 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl yn ei gwneud yn ofynnol i asiant gyflwyno ffurflen treuliau etholiad i'r Swyddog Canlyniadau ac mae adran 82 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl yn ei gwneud yn ofynnol i'r asiant a'r ymgeisydd wneud datganiad ynghylch cywirdeb y ffurflen. Mae'n drosedd gwneud datganiad anwir a hynny'n fwriadol.

Mae i Atodlen 4A dair Rhan. Mae Rhan 1 o Atodlen 4A i Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl yn rhestru'r materion a gwmpesir gan y rheolau ynglŷn â threuliau etholiad. Mae Rhan 2 yn nodi materion penodol sydd wedi'u heithrio'n gyffredinol rhag bod yn dreuliau etholiad yr aed iddynt. Rhan 3 yw'r adran atodol ac mae'n cynnwys y pŵer i'r Comisiwn baratoi cod ymarfer.

### **Diogelu Data**

Yr ymgeisydd a'i asiant sy'n gyfrifol am sicrhau bod y gweithgareddau y maent yn ymgymryd â hwy yn cydymffurfio â'r rheolau ar ddiogelu data. Ceir rhagor o wybodaeth am ddiogelu data yn : <https://ico.org.uk/for-organisations/political/>.

# Y COD

## Diffiniadau

### Yn y Cod hwn mae'r diffiniadau canlynol yn gymwys:

Mae i'r gair '**costau**' ei ystyr arferol, sef traul eitem neu sy'n gysylltiedig ag eitem. Mae'n cynnwys y "swm priodol" a drinnir fel y swm yr aed iddo gan yr ymgeisydd o dan y rheolau ar wariant tybiannol.

Ystyr '**eitem**' yw darn penodol o wariant sy'n dod o fewn mater a restrir yn Rhan 1 o Atodlen 4A o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 a gall gynnwys gweithgarwch. Nid yw'n cynnwys materion sy'n eithriedig fel arfer a nodir yn Rhan 2 o Atodlen 4A.

Ystyr '**Plaid Wleidyddol**' yw plaid sydd wedi'i chofrestru o dan Ran II o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000.

'**Cyfnod a reoleiddir**' gweler **Terfynau gwariant a chyfnodau ymgyrch** ar dudalen 3.'

Ystyr '**Ffurflen**' a 'Ffurflen Gwariant' yw ffurflen gwariant ynghylch treuliau etholiad i ymgeisydd fel sy'n ofynnol o dan adran 81 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 a lle y bo'n gymwys, fel y'i rhagnodir gan y Comisiwn Etholiadol.

Mae '**terfyn gwariant**' yn cyfeirio at uchafswm yr arian y gall ymgeisydd ei wario o dan adrannau 76 a 76ZA o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983.

Ystyr '**a ddefnyddiwyd mewn etholiad**' ac '**a ddefnyddiwyd**' [lle caniatu'r cyddestun] yw defnyddiwyd at ddibenion ethol ymgeisydd fel y'i diffiniwyd yn adran 90ZA(3) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 fel y'i hategir gan y Cod Ymarfer hwn.

### Termau arall:

Mae i **dermau eraill** yn y ddogfen hon yr un ystyr ag yn Neddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 neu, lle y bo'n berthnasol, yn Neddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000. Ceir tabl o'r rhain ar ddiwedd y ddogfen hon.

### Nid yw'r cod yn hollgynhwysfawr.

Mae'r rhestr a nodir isod ynghylch pa dreuliau y mae'n rhaid eu cofnodi mewn ffurflen gwariant yn gynhwysol yn hytrach nag yn hollgynhwysfawr. Efallai y bydd amgylchiadau'n codi pan nad yw traul wedi'i rhestru ond yr eir iddi neu [/a] ei bod yn cael ei defnyddio gyda'r nod o hyrwyddo neu sicrhau ethol yr ymgeisydd neu fel arall mewn cysylltiad â hyrwyddo neu sicrhau ethol yr ymgeisydd - bod yn rhaid i'r draul honno ac unrhyw gostau cysylltiedig sy'n deillio ohoni gael eu cofnodi ar y ffurflen gwariant.

## **Costau sydd wedi'u heithrio:**

Mae Atodlen 4A, Rhan 2 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl yn cynnwys rhestr o eithriadau. Nodir y rhain isod. Ni fydd dim yn y Cod hwn yn cael ei ystyried fel petai'n ymestyn i:

*'7. The payment of any deposit required by rule 9 of Schedule 1 to this Act.*

*8. The publication of any matter, other than an advertisement, relating to the election in—*

*(a) a newspaper or periodical;*

*(b) a broadcast made by the British Broadcasting Corporation or by Sianel Pedwar Cymru;*

*(c) a programme included in any service licensed under Part 1 or 3 of the Broadcasting Act 1990 or Part 1 or 2 of the Broadcasting Act 1996.*

*9. The provision of any facilities provided in pursuance of any right conferred on candidates at an election by this Act other than facilities in respect of which expenses fall to be defrayed by virtue of sections 95(4) and 96(4) above.*

*10. The provision by an individual of his [her] own services which he [she] provides voluntarily in his [her]own time and free of charge.*

*11 (1) Accommodation which is the candidate's sole or main residence.*

*(2) The provision by any other individual of accommodation which is his [her] sole or main residence if the provision is made free of charge.*

*12 (1) Transport by a means of transport which was acquired by the candidate principally for his [her] own personal use.*

*(2) Transport provided free of charge by any other individual if the means of transport was acquired by him[her] principally for his [her] own personal use.*

*13 (1) Computing or printing equipment which was acquired by the candidate principally for his [her] own personal use.*

*(2) The provision by any other individual of computing or printing equipment which was acquired by the individual principally for his [her] own personal use if the provision is made free of charge.'*

## **Materion penodol fel y'u nodir yn Neddf Cynrychiolaeth y Bobl, Atodlen 4A, Rhan 1**

**Deddf Cynrychiolaeth y Bobl, Atodlen 4A Rhan 1 paragraff 1**  
***'Hysbysebion o unrhyw fath (pa gyfrwng bynnag a ddefnyddir).***  
***Mae treuliau mewn perthynas â hysbysebion o'r fath yn cynnwys ffioedd asiantaeth, costau dylunio a chostau eraill mewn cysylltiad â pharatoi, cynhyrchu, dosbarthu neu fel arall ledaenu hysbysebion o'r fath neu unrhyw beth sy'n ymgorffori hysbysebion o'r fath ac y bwriedir iddo gael ei ddosbarthu at ddibenion ei ledaenu.'***

Costau sydd wedi'u cynnwys ym mharagraff 1

### Gwasanaethau, Cyfarpar, Cyfleusterau neu Safleoedd

1.1 Mae'n cynnwys costau defnyddio neu logi unrhyw asiantaeth i baratoi, cynhyrchu neu hwyluso'r broses o gynhyrchu'r deunydd hysbysebu.

1.2 Mae'n cynnwys costau defnyddio neu logi unrhyw asiantaeth i ledaenu deunydd hysbysebu drwy ei ddosbarthu neu fel arall.

1.3 Mae'n cynnwys costau llogi neu ddefnyddio unrhyw safleoedd neu gyfleusterau a ddefnyddir i baratoi, cynhyrchu, hwyluso, lledaenu neu ddosbarthu'r deunydd hysbysebu.

1.4 Mae'n cynnwys costau unrhyw wasanaethau proffesiynol a ddarperir gan unigolyn neu sefydliad i baratoi, cynhyrchu neu hwyluso'r broses o gynhyrchu'r deunydd.

1.5 Mae'n cynnwys costau unrhyw wasanaethau proffesiynol i ledaenu neu ddosbarthu'r deunydd hysbysebu.

1.6 Mae'n cynnwys costau prynu neu logi unrhyw gyfarpar arbenigol i baratoi, cynhyrchu neu hwyluso'r broses o gynhyrchu'r deunydd hysbysebu.

1.7 Mae'n cynnwys costau prynu neu logi unrhyw gyfarpar arbenigol i ledaenu neu ddosbarthu'r deunydd hysbysebu.

### Costau penodol mewn cysylltiad â chynhyrchu neu ledaenu deunydd hysbysebu digidol neu electronig

1.8 Mae'n cynnwys cost (gan gynnwys ffi trwydded) unrhyw feddalwedd o unrhyw fath i'w defnyddio ar unrhyw ddyfais i ddylunio a chynhyrchu cynnwys mewnol, p'un a gaiff y deunydd hwnnw ei ddosbarthu'n ddigidol, yn electronig neu drwy ddulliau eraill.

1.9 Mae'n cynnwys costau prynu neu logi unrhyw gyfarpar arbenigol, gwasanaethau proffesiynol neu safleoedd a ddefnyddir i gynhyrchu neu hwyluso deunydd hysbysebu digidol neu electronig.

1.10 Mae'n cynnwys costau datblygu deunydd hysbysebu:

- i'w lawrlwytho a'i ddefnyddio gan unigolion eraill, neu
- i'w ledaenu drwy ddulliau digidol neu electronig gan unigolion eraill, er enghraifft i'w ddsbarthu drwy'r cyfryngau cymdeithasol.

1.11 Mae'n cynnwys cost datblygu unrhyw feddalwedd ar gyfer unrhyw fath o ddyfais i dargedu, hwyluso neu ledaenu deunydd i bleidleiswyr, er enghraifft cymhwysiad meddalwedd i'w ddefnyddio ar ddyfais symudol.

1.12 Mae'n cynnwys costau llogi unrhyw asiantaeth, sefydliad neu unigolyn a ddefnyddir i baratoi, cynhyrchu neu hwyluso'r broses o gynhyrchu'r deunydd hysbysebu a chost dosbarthu neu ledaenu'r deunydd hwnnw drwy ddulliau eraill, gan gynnwys unrhyw gostau y gellir eu priodoli i broses o wneud y deunydd yn fwy gweladwy drwy ddulliau eraill. Er enghraifft, prynu lle mwy blaenllaw ar dudalen mewn chwilotwr.

1.13 Mae'n cynnwys cost datblygu a chynnal unrhyw rwydwaith digidol neu rwydwaith arall sy'n hyrwyddo deunydd hysbysebu neu sy'n ei wneud yn fwy gweladwy drwy unrhyw ddulliau. Er enghraifft, prynu hunaniaethau digidol a ddefnyddir i wneud deunydd i ymddangos fel petai wedi cael ei weld a'i gymeradwyo gan nifer fawr o ddefnyddwyr ar lwyfan cyfrwng cymdeithasol.

1.14 Mae'n cynnwys cost sefydlu a chynnal gwefan neu ddeunydd electronig/digidol arall sy'n hyrwyddo'r ymgeisydd.

1.15 Mae hyn yn cynnwys cost dylunio a chreu'r wefan. Mae hyn yn cynnwys cyfran o unrhyw wefan neu ddeunydd sy'n cael ei sefydlu i godi arian ar gyfer yr ymgeisydd ond sydd hefyd yn hyrwyddo'r ymgeisydd yn ystod y cyfnod a reoleiddir.

### Costau eraill sydd wedi'u cynnwys ym mharagraff 1

1.16 Mae'n cynnwys cost papur neu unrhyw gyfrwng arall y mae'r deunydd hysbysebu yn cael ei argraffu arno.

1.17 Mae'n cynnwys costau mewn cysylltiad ag arddangos hysbysebion yn ffisegol mewn unrhyw leoliad, er enghraifft clymau neu lud i osod posteri.

1.18 Mae'n cynnwys cost prynu neu logi cyfarpar llungopïo neu argraffydd a ddefnyddir yn ystod ymgyrch etholiad yr ymgeisydd, ac eithrio lle:

- cafodd y cyfarpar ei gaffael gan yr ymgeisydd yn bennaf at ddefnydd personol yr ymgeisydd ei hun;
- mae'n cael ei ddarparu gan unigolyn arall, cafodd y cyfarpar ei gaffael gan yr unigolyn hwnnw at ei ddefnydd personol ei hun ac ni chodir tâl ar yr ymgeisydd i'w ddefnyddio.



1.19 Lle mae papur, cyfarpar llungopïo neu argraffydd yn cael ei brynu neu ei logi i'w ddefnyddio'n bennaf yn ystod yr ymgyrch, mae'n rhaid cofnodi'r gost lawn.

1.20 Ystyr defnydd personol ym mharagraff 1.18 yw bod yn rhaid bod y cyfarpar wedi'i gaffael at ddefnydd personol parhaus gan yr ymgeisydd neu'r unigolyn ac nad yw'n cael ei ddefnyddio at ddibenion masnachol na dibenion eraill, megis gan blaid wleidyddol cyn neu ar ôl yr etholiad.

1.21 Mae'n cynnwys cost bwyd neu lety i unrhyw unigolyn sy'n darparu gwasanaeth mewn cysylltiad â deunydd hysbysebu i'r ymgeisydd y mae'r ymgeisydd, plaid yr ymgeisydd neu drydydd parti arall yn talu amdano neu'n ei ad-dalu.

1.22 Mae'n cynnwys costau cael cyngor cyfreithiol penodol sy'n ymwneud â chynnwys darn o ddeunydd hysbysebu lle yr eir iddynt mewn perthynas â chynhyrchu deunydd yr ymgyrch.

### Costau sydd wedi'u heithrio o baragraff 1

1.23 Nid yw'n cynnwys gwasanaethau a ddarperir gan unigolyn yn ddi-dâl fel gwirfoddolwr.

### Treuliau personol

1.24 Lle mae cost yn draul bersonol o fewn ystyr Deddf Cynrychiolaeth y Bobl i'r ymgeisydd, mae'n rhaid i hon gael ei chofnodi fel traul bersonol ar y ffurflen gwariant yn hytrach na thraul o dan Atodlen 4A Rhan 1. Mae "treuliau personol" fel y'i defnyddir o ran gwariant unrhyw ymgeisydd mewn perthynas ag unrhyw etholiad yn cynnwys treuliau teithio rhesymol yr ymgeisydd, a threuliau rhesymol byw mewn gwestai neu mewn man arall at ddibenion yr etholiad ac mewn perthynas â'r etholiad.

**Deddf Cynrychiolaeth y Bobl, Atodlen 4A Rhan 1, paragraff 2**  
***‘Deunydd digymell a gyfeirir at etholwyr (p’un a yw wedi’i gyfeirio atynt yn ôl enw neu y bwriedir iddo gael ei ddsbarthu i gartrefi o fewn unrhyw ardal benodol).***

***Mae treuliau mewn perthynas â deunydd o’r fath yn cynnwys costau dylunio a chostau eraill mewn cysylltiad â pharatoi, cynhyrchu neu ddsbarthu deunydd o’r fath (gan gynnwys cost postio).’***

Costau sydd wedi’u cynnwys ym mharagraff 2

Costau sy’n gysylltiedig â thargeddu neu nodi pleidleiswyr, gan gynnwys costau cronfeydd data

2.1 Mae hyn yn cynnwys costau llogi, prynu, datblygu a chynnal meddalwedd TG neu gronfeydd data o fanylion cyswllt er mwyn hwyluso’r broses o anfon deunydd digymell at bleidleiswyr.

2.2 Mae’n cynnwys costau cael a chynnal unrhyw wybodaeth, drwy ba ddull bynnag y bo, a ddefnyddir i hwyluso’r broses o anfon deunydd digymell at bleidleiswyr. Er enghraifft, prynu cyfeiriadau e-bost.

2.3 Mae’n cynnwys cost cael neu ddatblygu setiau data sydd wedi’u hanelu at dargeddu pleidleiswyr mewn ardal etholiadol, gan gynnwys cost cyfryngau sy’n nodi grwpiau o bleidleiswyr, drwy ba ddull bynnag y bo. Er enghraifft, mae hyn yn cynnwys cost dadansoddi cynnwys cyfryngau cymdeithasol er mwyn hwyluso’r broses o dargeddu pleidleiswyr o fewn yr etholaeth a chost modelu sy’n seiliedig ar y dadansoddiad hwnnw.

2.4 Lle mae’r wybodaeth honno wedi’i chael gan drydydd parti, gan gynnwys plaid wleidyddol, mae cost fasnachol cael y wybodaeth honno gan y trydydd parti wedi’i chynnwys.

Costau sy’n gysylltiedig â dosbarthu deunydd digymell at bleidleiswyr, gan gynnwys drwy ddulliau digidol

2.5 Mae hyn yn cynnwys costau defnyddio neu logi unrhyw asiantaeth, sefydliad neu unigolyn a ddefnyddir i baratoi, cynhyrchu neu hwyluso’r broses o gynhyrchu deunydd digymell a chost dosbarthu’r deunydd hwnnw drwy unrhyw ddull, gan gynnwys unrhyw gostau y gellir eu priodoli i broses o wneud y cynnwys yn fwy gweladwy drwy unrhyw ddull.

2.6 Mae’n cynnwys cost cynhyrchu deunydd digymell i’w gyhoeddi ar unrhyw fath o gyfrwng cymdeithasol neu lwyfan arall ac i hyrwyddo’r ymgeisydd ar unrhyw fath o gyfrwng cymdeithasol neu lwyfan arall, er enghraifft costau cynhyrchu deunydd mewn perthynas â’r ymgeisydd a gyhoeddir ar dudalen ar safle cyfrwng cymdeithasol sy’n annog dilynwyr i’w rannu.

2.7 Mae'n cynnwys cost datblygu a chynnal unrhyw rwydwaith digidol neu rwydwaith arall sy'n hyrwyddo deunydd digymell ar unrhyw lwyfan neu sy'n ei wneud yn fwy gweladwy ar unrhyw lwyfan. Er enghraifft, mae ymgeisydd yn talu datblygwr i greu rwydwaith sy'n hyrwyddo ei ddeunydd ar lwyfan cyfrwng cymdeithasol.

2.8 Mae'n cynnwys cost dosbarthu deunydd drwy ddulliau electronig a dosbarthu'r deunydd yn ffisegol, er enghraifft cost amlenni a stampiau neu brynu system ar gyfer anfon negeseuon e-bost.

2.9 Mae'n cynnwys cost goruchwyllo a chynnal pob cyfrwng cymdeithasol, dull digidol neu ddull arall o ddosbarthu deunydd digymell. Mae hyn yn cynnwys cynnal pob tudalen we neu gyfrif cyfrwng cymdeithasol cysylltiedig (gan gynnwys os ydynt yn cael eu cynnal gan endid/unigolyn arall).

### Costau eraill mewn cysylltiad â pharatoi, cynhyrchu neu ddosbarthu deunydd digymell a gyfeirir at etholwyr

2.10 Mae'n cynnwys cost papur neu unrhyw gyfrwng arall y mae'r deunydd digymell yn cael ei argraffu arno.

2.11 Mae'n cynnwys cost prynu neu logi cyfarpar llungopïo neu argraffydd i'w ddefnyddio yn ystod ymgyrch etholiad yr ymgeisydd, ac eithrio lle:

- cafodd y cyfarpar ei gaffael gan yr ymgeisydd yn bennaf at ddefnydd personol yr ymgeisydd ei hun;
- mae'n cael ei ddarparu gan unigolyn arall, cafodd y cyfarpar ei gaffael gan yr unigolyn hwnnw at ei ddefnydd personol ei hun ac ni chodir tâl ar yr ymgeisydd i'w ddefnyddio.

2.12 Lle mae papur, cyfarpar llungopïo neu argraffydd yn cael ei brynu neu ei logi i'w ddefnyddio'n bennaf yn ystod yr ymgyrch, mae'n rhaid cofnodi'r gost lawn.

2.13 Ystyr defnydd personol ym mharagraff 2.10 yw bod yn rhaid bod y cyfarpar wedi'i gaffael at ddefnydd personol parhaus gan yr ymgeisydd neu'r unigolyn ac nad yw'n cael ei ddefnyddio at ddibenion masnachol na dibenion eraill, megis gan blaid wleidyddol cyn neu ar ôl yr etholiad.

2.14 Mae'n cynnwys cost bwyd neu lety i unrhyw unigolyn sy'n darparu gwasanaeth mewn cysylltiad â deunydd digymell i'r ymgeisydd y mae'r ymgeisydd, plaid yr ymgeisydd neu drydydd parti arall yn talu amdano neu'n ei ad-dalu.

2.15 Mae'n cynnwys costau cael cyngor cyfreithiol penodol sy'n ymwneud â chynnwys darn o ddeunydd digymell lle yr eir iddynt mewn perthynas â chynhyrchu neu ddosbarthu'r deunydd.

## Costau sydd wedi'u heithrio o baragraff 2

2.16 Nid yw'n cynnwys gwasanaethau a ddarperir gan unigolyn yn ddi-dâl fel gwirfoddolwr.

2.17 Nid yw'n cynnwys cost postio'r cyfeiriad etholiadol am ddim fel y'i hamlinellir yn a91 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl.

## Treuliau personol

2.18 Lle mae cost yn draul bersonol o fewn ystyr Deddf Cynrychiolaeth y Bobl i'r ymgeisydd, mae'n rhaid i hon gael ei chofnodi fel traul bersonol ar y ffurflen gwariant yn hytrach na thraul o dan Atodlen 4A Rhan 1. Mae "treuliau personol" fel y'i defnyddir o ran gwariant unrhyw ymgeisydd mewn perthynas ag unrhyw etholiad yn cynnwys treuliau teithio rhesymol yr ymgeisydd, a threuliau rhesymol byw mewn gwestai neu mewn man arall at ddibenion yr etholiad ac mewn perthynas â'r etholiad.

**Deddf Cynrychiolaeth y Bobl, Atodlen 4A, Rhan 1, paragraff 3**  
***‘Cludo (drwy unrhyw ddull) personau i unrhyw le.***  
***Mae treuliau mewn perthynas â chludo personau o’r fath yn***  
***cynnwys costau llogi dull cludo am gyfnod penodol.’***

### Costau sydd wedi’u cynnwys ym mharagraff 3

3.1 Mae’n cynnwys costau cludo ar gyfer yr asiant lle mae’r ymgeisydd, plaid yr ymgeisydd neu drydydd parti arall yn ei ad-dalu.

### Cludo gwirfoddolwyr ac ymgyrchwyr

3.2 Mae’n cynnwys costau cludo gwirfoddolwyr, aelodau o staff y blaid neu ymgyrchwyr eraill o amgylch yr ardal etholiadol, gan gynnwys cost llogi unrhyw gludiant o’r fath a chostau tanwydd, lle maent yn ymgyrchu ar ran yr ymgeisydd.

3.3 Mae’n cynnwys costau cludo gwirfoddolwyr, aelodau o staff y blaid neu ymgyrchwyr eraill i’r ardal etholiadol ac o’r ardal etholiadol, gan gynnwys cost llogi unrhyw gludiant o’r fath a chostau tanwydd, lle maent yn ymgyrchu ar ran yr ymgeisydd.

3.4 Mae’n cynnwys costau cludiant y telir amdanynt gan unrhyw unigolyn, plaid wleidyddol neu drydydd parti arall y mae’r ymgeisydd, y blaid wleidyddol neu drydydd parti yn talu amdanynt neu’n eu had-dalu, lle roedd yr unigolion a gafodd eu cludo yn ymgyrchu dros yr ymgeisydd.

### Cludiant sy’n hyrwyddo’r ymgeisydd neu’r ymgeiswyr

3.5 Mae’n cynnwys costau unrhyw gerbyd neu fath o gludiant sy’n arddangos deunydd sy’n hyrwyddo’r ymgeisydd, gan gynnwys unrhyw gostau mewn cysylltiad â pharatoi, dosbarthu a defnyddio’r cerbyd.

3.6 Mae’n cynnwys cyfran o gost unrhyw gerbyd neu fath o gludiant sy’n arddangos deunydd sy’n hyrwyddo mwy nag un ymgeisydd, gan gynnwys cyfran o gostau paratoi, dosbarthu a defnyddio’r cerbyd.

### Costau sydd wedi’u heithrio o baragraff 3

3.8 Nid yw’n cynnwys unrhyw un o’r costau uchod lle yr eir iddynt neu lle y telir amdanynt gan yr unigolyn a ddefnyddiodd y cludiant, neu lle y darperir y cludiant yn ddi-dâl gan unrhyw unigolyn arall os cafodd y dull cludo ei gaffael gan y person hwnnw yn bennaf at ei ddefnydd personol ei hun.

## Treuliau personol

3.9 Lle mae cost cludo yn draul bersonol o fewn ystyr Deddf Cynrychiolaeth y Bobl i'r ymgeisydd, mae'n rhaid i hon gael ei chofnodi fel traul bersonol ar y ffurflen gwariant yn hytrach na thraul o dan Atodlen 4A Rhan 1. Mae "treuliau personol" yn cynnwys treuliau teithio rhesymol yr ymgeisydd at ddibenion yr etholiad ac mewn perthynas â'r etholiad.

**Deddf Cynrychiolaeth y Bobl, Atodlen 4A Rhan 1 paragraff 4  
'Cyfarfodydd cyhoeddus (o unrhyw fath).**

***Mae treuliau mewn perthynas â chyfarfodydd o'r fath yn cynnwys costau yr aed iddynt mewn cysylltiad â phresenoldeb personau mewn cyfarfodydd o'r fath, llogi safleoedd at ddibenion cynnal cyfarfodydd o'r fath neu ddarparu nwyddau, gwasanaethau neu gyfleusterau ynddynt.'***

**Costau sydd wedi'u cynnwys yn y paragraff 4 hwn**

4.1 Mae hyn yn cynnwys cost unrhyw eitemau sy'n hyrwyddo'r digwyddiad, drwy unrhyw ddull.

4.2 Mae'n cynnwys cost defnyddio safle ar gyfer digwyddiad, gan gynnwys safleoedd a ddefnyddir i ffrydio neu ddarlledu digwyddiad.

4.3 Mae'n cynnwys cost digwyddiad sy'n cael ei ffrydio'n fyw neu ei gynnal drwy ddolen o unrhyw fath, lle mae'r digwyddiad hwnnw yn agored i'w weld gan ddefnyddwyr llwyfan.

4.4 Mae'n cynnwys cost unrhyw gyfarpar neu wasanaethau arbenigol sydd eu hangen ar gyfer y digwyddiad, gan gynnwys cyfarpar a ddefnyddir i ddarlledu neu ffrydio'r digwyddiad.

4.5 Mae'n cynnwys cost darparu unrhyw nwyddau, gwasanaethau neu gyfleusterau yn y digwyddiad, er enghraifft cost llogi seddi.

4.6 Mae'n cynnwys costau cludo'r rhai sy'n mynd i ddigwyddiad lle mae'r ymgeisydd, plaid yr ymgeisydd neu drydydd parti arall yn ad-dalu'r gost honno neu'n talu'r gost honno.

4.7 Mae'n cynnwys cost llety a threuliau eraill i unrhyw un sy'n bresennol lle mae'r ymgeisydd, plaid yr ymgeisydd neu drydydd parti arall yn ad-dalu'r gost honno neu'n talu'r gost honno.

**Treuliau personol**

4.8 Lle mae cost yn draul bersonol o fewn ystyr Deddf Cynrychiolaeth y Bobl i'r ymgeisydd, mae'n rhaid i hon gael ei chofnodi fel traul bersonol ar y ffurflen gwariant yn hytrach na thraul o dan Atodlen 4A Rhan 1. Mae "treuliau personol" fel y'i defnyddir o ran gwariant unrhyw ymgeisydd mewn perthynas ag unrhyw etholiad yn cynnwys treuliau teithio rhesymol yr ymgeisydd, a threuliau rhesymol byw mewn gwestai neu mewn man arall at ddibenion yr etholiad ac mewn perthynas â'r etholiad.

**Deddf Cynrychiolaeth y Bobl, Atodlen 4A Rhan 1 paragraff 5  
'Gwasanaeth asiant etholiad neu unrhyw berson arall a gyflogir  
mewn cysylltiad ag etholiad yr ymgeisydd.'**

**Costau sydd wedi'u cynnwys ym mharagraff 5**

**Costau asiantiaid**

5.1 Mae hyn yn cynnwys unrhyw gydnabyddiaeth a delir i'r asiant, gan gynnwys unrhyw lwfansau a delir i'r asiant.

**Staff a gyflogir gan blaid wleidyddol**

5.2 Mae'n cynnwys cost unrhyw aelod o staff plaid wleidyddol sy'n darparu gwasanaethau i'r ymgeisydd yn ystod y cyfnod a reoleiddir, neu sy'n darparu gwasanaethau i'r ymgeisydd cyn y cyfnod hwnnw sy'n cael eu defnyddio wedyn yn ystod y cyfnod a reoleiddir.

**Staff sy'n monitro cyfryngau cymdeithasol a gweithgareddau eraill sy'n ymwneud â'r wasg**

5.3 Mae'n cynnwys cost staff sy'n ymwneud â rheoli cyfryngau cymdeithasol a chael data er mwyn targedu gweithgarwch ymgyrchu. Mae hyn yn cynnwys llogi staff i ddadansoddi a didoli'r data a chost staff i fonitro unrhyw fath o gyfrwng cymdeithasol neu gyfrif arall a chyhoeddi ar unrhyw fath o gyfrwng cymdeithasol neu gyfrif arall neu ymateb i unrhyw fath o gyfrwng cymdeithasol neu gyfrif arall.

5.4 Mae'n cynnwys cost staff sy'n ymwneud â rheoli gweithgareddau gyda'r wasg o unrhyw fath, gan gynnwys staff sy'n cydgysylltu ag unrhyw fath o weithgarwch yn y cyfryngau drwy unrhyw ddull, neu ei reoli neu ei fonitro.

**Costau sydd wedi'u heithrio o baragraff 5**

5.5 Nid yw hyn yn cynnwys cost gwasanaethau asiant nac unrhyw berson arall sy'n gweithredu ar sail wirfoddol. Nid oes angen cofnodi unrhyw swm ar gyfer cost gwasanaethau lle na thelir unrhyw arian i asiant nac unrhyw berson arall.



## **Deddf Cynrychiolaeth y Bobl, Atodlen 4A, Rhan 1, paragraff 6 'Costau llety a gweinyddol.'**

### **Costau sydd wedi'u cynnwys ym mharagraff 6**

6.1 Mae hyn yn cynnwys costau rhentu swyddfa ar gyfer ymgyrch yr ymgeisydd, p'un a yw newydd ei rhentu neu'n cael ei rhentu o dan gytundeb rhentu sy'n bodoli eisoes.

6.2. Mae'n cynnwys cost swyddfa lle mae'r swyddfa honno yn cael ei rhannu. Mae'n rhaid dosrannu'r gost ac mae'n rhaid i swm, sy'n adlewyrchu'n rhesymol y defnydd gan yr ymgeisydd yn ystod yr ymgyrch, gael ei gynnwys ar y ffurflen i'r ymgeisydd a bydd yn cyfrif tuag at derfyn gwariant yr ymgeisydd. .

6.3 Mae'n cynnwys cost biliau trydan, darparu llinellau ffôn a mynediad i'r rhyngwyd ar gyfer ymgyrch yr ymgeisydd.

6.4 Mae'n cynnwys cost darparu ffonau symudol a'r contractau cysylltiedig ar gyfer yr ymgeisydd, asiant ac unrhyw aelodau o staff a gyflogir i gynorthwyo'r asiant, gan gynnwys lle mae'r ymgeisydd, plaid yr ymgeisydd neu drydydd parti arall yn talu am gostau ffonau symudol gwirfoddolwyr neu'n ad-dalu costau ffonau symudol gwirfoddolwyr.

6.5 Mae'n cynnwys cost dodrefn swyddfa gyffredinol i'w defnyddio yn ystod ymgyrch yr ymgeisydd.

6.6 Mae'n cynnwys y costau gweinyddol sy'n gysylltiedig ag ariannu torfol.

6.7 Mae'n cynnwys costau llety i'r asiant, lle maent yn cael eu had-dalu gan yr ymgeisydd, plaid yr ymgeisydd neu drydydd parti arall.

6.8 Mae'n cynnwys costau anfon gwirfoddolwyr neu gyflogeion plaid i mewn i etholaeth lle maent yn ymgyrchu dros yr ymgeisydd, gan gynnwys eu costau llety os ydynt yn cael eu had-dalu gan yr ymgeisydd, plaid yr ymgeisydd neu drydydd parti arall.

6.9 Mae'n cynnwys costau tanysgrifio ar gyfer gwasanaethau monitro'r cyfryngau a gwasanaeth datganiadau i'r wasg ar wifren y wasg.

### **Costau sydd wedi'u heithrio o baragraff 6**

6.10 Nid yw'n cynnwys cost gofal plant i ymgeisydd na'i asiant na gwirfoddolwr.

6.11 Nid yw'n cynnwys costau dŵr, nwy na'r dreth gyngor.

6.12 Nid yw'n cynnwys llety a ddarperir gan unrhyw unigolyn arall sy'n unig breswylfa neu'n brif breswylfa'r unigolyn os caiff ei ddarparu'n ddi-dâl.

## Treuliau personol

6.13 Lle mae cost llety yn draul bersonol o fewn ystyr Deddf Cynrychiolaeth y Bobl i'r ymgeisydd, mae'n rhaid i hon gael ei chofnodi fel traul bersonol ar y ffurflen gwariant yn hytrach na thraul o dan Atodlen 4A Rhan 1. Mae "treuliau personol" yn cynnwys treuliau rhesymol yr ymgeisydd sy'n byw mewn gwestai neu mewn man arall at ddibenion yr etholiad ac mewn perthynas â'r etholiad.

## **Pryd yr ystyrir bod gwariant ar eitem yn wariant yr eir iddo at ddibenion ethol ymgeisydd?**

1.1 Fel rheol, ystyrir bod costau eitemau yn gostau yr eir iddynt at ddibenion ethol ymgeisydd (gwariant ymgeisydd) pryd bynnag yr eir iddynt gyda'r nod o hyrwyddo neu sicrhau ethol yr ymgeisydd, neu fel arall mewn cysylltiad â hyrwyddo neu sicrhau ethol yr ymgeisydd.

1.2 Mae paragraffau [1.5] i [1.10] isod yn nodi rhai o'r senarios lle y bydd hyn yn digwydd. Dylai'r paragraffau hyn gael eu darllen ar y cyd â'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer gwariant ymgeisydd a nodir ar dudalennau [2 a 3] uchod a'r materion penodol a nodir yn Neddf Cynrychiolaeth y Bobl, Atodlen 4A, Rhan 1 fel y'i heglurir yn y Cod hwn ar dudalennau 7-19.

1.3 Lle mae gwariant ar eitem yn cael ei ystyried yn wariant ymgeisydd, mae costau'r eitem ac unrhyw gostau cysylltiedig yn cyfrif tuag at derfyn gwariant yr ymgeisydd. Mae'n rhaid i gostau pob eitem a ddefnyddir yn ystod y cyfnod a reoleiddir gael eu cofnodi ar y ffurflen i'r ymgeisydd fel y bo'n briodol.

### **Enghreiffiau o achosion ac amgylchiadau**

1.4 Dyma rai o'r achosion a'r amgylchiadau lle ystyrir yr aed i dreuliau at ddibenion ethol ymgeisydd:

- Lle y gellir adnabod yr ymgeisydd:
- Lle y gellir adnabod yr etholaeth:
- Gwariant gan fwy nag un ymgeisydd
- Deunydd sy'n cynnwys arweinydd y blaid neu aelodau blaenllaw o'r blaid

#### **Lle y gellir adnabod yr ymgeisydd:**

1.5. Er enghraifft, pryd bynnag y bydd yr eitem, megis taflen ymgyrch,

- yn nodi'r ymgeisydd yn yr etholiad neu y gellir adnabod yr ymgeisydd o'r eitem, ac
- mae'r [eitem/gwariant] wedi'i (h)anelu at bleidleiswyr yn yr etholaeth lle mae'r ymgeisydd yn sefyll er mwyn hyrwyddo neu sicrhau ethol yr ymgeisydd hwnnw;

#### **Lle y gellir adnabod yr etholaeth:**

1.6 Er enghraifft, pryd bynnag mae'r eitem,—

- yn nodi'r etholaeth lle mae'r ymgeisydd yn sefyll, ac
- mae'r [eitem/gwariant] wedi'i (h)anelu at bleidleiswyr yn yr etholaeth lle mae'r ymgeisydd yn sefyll er mwyn hyrwyddo neu sicrhau ethol yr ymgeisydd hwnnw.

1.7 Ym mharagraffau [1.5 a 1.6] uchod –

- mae gwariant ar eitemau i hyrwyddo neu sicrhau ethol yr ymgeisydd hwnnw yn cynnwys gwneud hynny drwy effeithio ar ragolygon etholiadol ymgeisydd arall neu ymgeiswyr eraill sy'n sefyll yn yr etholaeth;
- gall eitem hyrwyddo neu sicrhau ethol yr ymgeisydd hyd yn oed os nad yw'n cyfeirio'n benodol at enw unrhyw ymgeisydd na'r etholaeth.

### **Gwariant gan fwy nag un ymgeisydd**

1.8 Er enghraifft, pryd bynnag y bydd eitem, er enghraifft, taflen ymgyrch neu hysbyseb bwrdd poster –

- yn cael ei dosbarthu neu ei harddangos gyda'r nod o sicrhau bod mwy nag un ymgeisydd yn cael eu hethol yn yr un etholaeth, er enghraifft yng Ngogledd Iwerddon, ac
- y gellir adnabod pob ymgeisydd,

bydd cost yr eitem yn cael ei hystyried yn gost yr aed iddi at ddibenion ethol pob un o'r ymgeiswyr hynny, ac felly caiff ei rhannu rhyngddynt.

### **Deunydd sy'n cynnwys arweinydd y blaid neu aelodau blaenllaw o'r blaid**

1.9 Nid ystyrir bod cost eitemau sy'n hyrwyddo'r arweinydd neu aelodau blaenllaw eraill o'r blaid yn benodol yn gost yr aed iddi at ddibenion ethol ymgeisydd ac oni chânt eu lledaenu neu eu harddangos yn yr etholaeth lle mae'r arweinydd hwnnw neu'r aelod hwnnw o'r blaid yn sefyll.

1.10 Ystyrir bod eitemau sy'n cynnwys arweinydd y blaid neu aelodau blaenllaw o'r blaid ac sy'n cael eu lledaenu neu eu harddangos yn yr etholaeth lle mae'r arweinydd hwnnw neu'r aelod hwnnw o'r blaid yn sefyll yn hyrwyddo'r arweinydd hwnnw neu'r aelod hwnnw o'r blaid neu'n sicrhau bod yr arweinydd hwnnw neu'r aelod hwnnw yn cael ei ethol ac ystyrir bod costau eitemau o'r fath yn gostau yr aed iddynt at ddibenion yr arweinydd neu'r aelod hwnnw. Mae'n rhaid iddynt gael eu cofnodi ar ffurflen yr ymgeisydd ar gyfer arweinydd y blaid neu'r aelod o'r blaid ac maent yn cyfrif tuag at derfyn gwariant yr arweinydd neu'r aelod o'r blaid.

# **Egwyddorion cyffredinol sy'n gymwys i bob traul etholiad yr eir iddi neu sy'n cael ei thrin yn draul yr eir iddi**

## **1. Ailddefnyddio eitemau y talwyd amdanynt ac a ddefnyddiwyd mewn etholiad blaenorol**

1.1 Ni ddylid dosrannu na disgowntio eitemau y telir amdanynt neu a ddefnyddir mewn etholiad gan ymgeisydd am y gallant gael eu hailddefnyddio neu y byddant yn cael eu hailddefnyddio mewn etholiad neu etholiadau dilynol. Mae'n rhaid i gost lawn eitemau gael ei chofnodi ar y ffurflen yn yr etholiad lle y defnyddir yr eitem yn gyntaf.

1.2 Mae cost lawn eitemau a all gael eu hailddefnyddio neu a fydd yn cael eu hailddefnyddio yn cyfrif tuag at y terfyn gwariant yn yr etholiad cyntaf lle y cânt eu defnyddio.

1.3 Nid oes angen cofnodi cost prynu eitemau:

- y talwyd amdanynt yn llawn (a gawsant eu perchenogi yn hytrach na'u llogi); ac
- a ddefnyddiwyd mewn etholiad blaenorol; ac
- a gofnodwyd yn llawn ar y ffurflen gwariant i'r ymgeisydd mewn etholiad blaenorol; ac
- nad ydynt wedi cael eu newid mewn unrhyw ffordd

ar y ffurflen gwariant, naill ai fel gwariant tybiannol neu fel arall, i'r un ymgeisydd mewn etholiad dilynol.

1.4 Nid yw cost prynu eitemau y mae ymgeisydd yn berchen arnynt ac nad ydynt yn cael eu hailddefnyddio yn cyfrif tuag at y terfyn gwariant mewn etholiadau dilynol.

1.5 Fodd bynnag, mae'n rhaid cofnodi pob cost yr eir iddi wrth hwyluso'r ailddefnydd o eitem mewn etholiad dilynol, gan gynnwys:

- storio,
- glanhau;
- newid a/neu ychwanegu
- cynnal a chadw; a/neu
- ailddatblygu

ar y ffurflen ar gyfer yr etholiad dilynol lle y caiff yr eitemau eu defnyddio eto.

1.6 Mae'r costau yr eir iddynt wrth hwyluso'r ailddefnydd yn cyfrif tuag at y terfyn gwariant yn yr etholiad dilynol lle y caiff eu hailddefnyddio.

## **2. Eitemau nas defnyddiwyd o gwbl**

2.1 Nid yw eitemau y talwyd amdanynt ac nas defnyddiwyd mewn etholiad yn cael eu hystyried yn dreuliau etholiad yr aed iddynt gyda'r nod o hyrwyddo neu sicrhau ethol yr ymgeisydd neu fel arall mewn cysylltiad â hyrwyddo neu sicrhau ethol yr ymgeisydd ac nid oes angen eu cofnodi ar y ffurflen.

## **3. Eitemau yr aed iddynt neu y talwyd amdanynt cyn cychwyn y cyfnod a reoleiddir**

3.1 Mae'n rhaid i wariant yr aed iddo cyn i'r cyfnod a reoleiddir ddechrau, ar eitemau a ddefnyddir yn ystod y cyfnod a reoleiddir gael ei gofnodi ar y ffurflen.

3.2 Mae'n rhaid i eitemau y talwyd amdanynt cyn i'r cyfnod a reoleiddir ddechrau a ddefnyddir yn ystod y cyfnod a reoleiddir gael eu cofnodi ar y ffurflen.

3.3 Mae cost eitemau lle yr aed i'r gwariant neu lle y talwyd am y costau cyn i'r cyfnod a reoleiddir ddechrau ond a ddefnyddiwyd yn ystod y cyfnod a reoleiddir yn cyfrif tuag at derfyn gwariant yr ymgeisydd.

## **4. TAW**

4.1 Mae'n rhaid i bob eitem ar y ffurflen gael ei chofnodi gan gynnwys TAW.

4.2 Lle y codir TAW ar eitem, mae swm y TAW yn cyfrif tuag at y terfyn gwariant ac mae'n rhaid iddi gael ei chofnodi ar y ffurflen.

## Termau arall:

Mae i **dermau eraill** yn y ddogfen hon yr un ystyr ag yn Neddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 neu, lle y bo'n berthnasol, yn Neddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000. Ceir rhestr o'r termau hyn a'u cyfeiriadau deddfwriaethol isod.

<b>Tabl o'r diffiniadau o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl a PPERA</b>	
Swm priodol	Adran 90C o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl
Gwariant ar yr ymgyrch	Adran 72 o PPERA
Ymgeisydd	Adran 118A o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl
Asiant Etholiad	Rhan 2 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl
Treuliau Etholiad	Adran 90ZA o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl
Ffurflen gwariant	Adran 80 o PPERA
Gwariant Tybiannol	Adran 90C o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl
Treuliau Personol	Adran 118 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl

## Etholiadau sy'n gymwys

Mae'r Cod hwn yn gymwys i'r etholiadau canlynol:

- Etholiadau cyffredinol Senedd y DU
- Etholiadau Cynulliad Gogledd Iwerddon
- Etholiadau Maerol Awdurdod Cyfunol
- Etholiadau ar gyfer Awdurdod Llundain Fwyaf
- Etholiadau maerol yn Lloegr
- Etholiadau lleol yn Lloegr
- Etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu (i'w gadarnhau)
- Is-etholiadau yn unrhyw un o'r uchod